# Prestatyn

**Pellter**: 8km / 5 filltir
**Anhawster**: Anturus
**Amser cerdded**: 3 awr

Grisiau, rhannau mwy serth a thir anwastad.

Digon o gaffis yng nghanol y dref yn ogystal â thoiledau.

Mae'r llwybr hwn yn dilyn Llwybr Clawdd Offa o'r orsaf i fyny Mynydd Prestatyn. Mae'r ddringfa'n llawn golygfeydd godidog o'r môr a draw at y Gogarth. Ar ôl cyrraedd y piler ar y Graig Fawr, byddwch yn dychwelyd ar hyd hen reilffordd a sy'n hawdd ei cherdded ar y gwastad.

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau.

1. O'r Orsaf Drenau, dilynwch lwybr Clawdd Offa i fyny'r Stryd Fawr gan groesi'r briffordd wrth y goleuadau traffig a pharhau i ddilyn yr arwyddion allan o'r dref, gan fynd i fyny'r allt yn raddol.

2. Pan fydd y Llwybr Cenedlaethol yn gadael y dref ac yn mynd at Fynydd Prestatyn, dilynwch y llwybr sy'n rhoi golygfeydd gwych i bob cyfeiriad. Ar ôl ychydig o gilometrau, mae'r llwybr yn disgyn i bentref bach Bryniau lle cymerwch yr ail droad i'r dde a gadael llwybr Clawdd Offa y tu ôl i chi.

3. Mae taith gerdded fer ar hyd y ffordd dawel yn ein harwain at fynedfa'r Graig Fawr sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol lle byddwn yn dringo fymryn at y piler ac yn mwynhau'r golygfeydd.

4. Rhaid disgyn yn eithaf serth gan wyro i'r dde, ac fe ddown at Lwybr Dyserth-Prestatyn. Mae hwn yn dilyn llwybr hen reilffordd a arferai wasanaethu mwyngloddiau a chwareli'r llethrau cyfagos.

5. Dilynwch y llwybr gwastad a rhwydd hwn yr holl ffordd yn ôl i ganol y dref lle byddwn yn dychwelyd i'r orsaf.




Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023